Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol ar gyfer Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru: Egwyddorion Dylunio

Gorffennaf 2021

Llun y clawr oddi wrth Croeso Cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2021 WG43275 ISBN digidol 978-1-80195-769 4

Mae Llywodraeth Cymru, fel yr awdurdod cynllunio morol ar gyfer ardaloedd cynllunio morol Cymru yn nyfroedd y glannau ac ar y môr mawr, wedi amlinellu ei dull arfaethedig ar gyfer nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol posib[1] i ategu'r gwaith o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC). Mae'r gwaith hwn yn un elfen o'n dull gofodol ehangach ni o weithredu CMCC a deall y cyfleoedd a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy.[2]

Bydd Ardaloedd Adnoddau Strategol, os bwrir ymlaen â nhw, yn disgrifio ac yn diogelu ardaloedd adnoddau naturiol penodol y mae polisi SAF_02 CMCC yn berthnasol iddynt. Byddwn yn defnyddio dull integredig a chydgysylltiedig ar gyfer datblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol, gan ystyried anghenion mewn modd cyfannol ar draws amrediad o sectorau, yn hytrach na datblygu cynlluniau annibynnol ar gyfer Ardaloedd sy'n ystyried un sector yn unig.[3]

## Ardaloedd Adnoddau Strategol

Bydd Ardaloedd Adnoddau Strategol, os bwrir ymlaen â nhw, **yn disgrifio ac yn diogelu ardaloedd adnoddau naturiol** sydd â'r potensial i helpu i ddefnyddio adnoddau mewn modd cynaliadwy yn y dyfodol.

Bwriedir hefyd i Ardaloedd Adnoddau Strategol **hyrwyddo trafodaethau rhagweithiol** rhwng sectorau i sicrhau nad yw unrhyw gynlluniau i ehangu'r defnydd o adnoddau yn cyfyngu ar sectorau eraill yn ddiangen.

Fel y nodir yn CMCC, rydym yn bwriadu archwilio'r posibilrwydd o nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol mewn perthynas â thechnolegau ynni'r môr adnewyddadwy newydd (adnoddau ynni tonnau, adnoddau ynni ffrwd lanw ac, o bosibl, adnoddau ynni amrediad llanw ac adnoddau ynni gwynt sy'n arnofio ar y môr[4]), yn ogystal ag adnoddau agregau ac adnoddau dyframaethu pysgod cregyn a gwymon.

## Diben y ddogfen hon:

Mae'r papur hwn yn amlinellu'r egwyddorion cynllunio[5] a fydd yn helpu i arwain y gwaith o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl. Mae'n rhan o gyfres ehangach o ddogfennau sy'n darparu'r cyd-destun ar gyfer datblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol, a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r dogfennau hyn[6]. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y dull o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol i ategu'r gwaith o weithredu polisi diogelu CMCC (Gorffennaf 2021, yn amlinellu amcanion yr Ardaloedd hyn, ynghyd â'r cyd-destun polisi a throsolwg o'r dull o'u datblygu).
- Y dull o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol i ategu'r gwaith o weithredu polisi diogelu CMCC – atodiad: cysoni â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (Gorffennaf 2021).
- Egwyddorion Dylunio (y papur hwn, Gorffennaf 2021) i helpu gyda'r gwaith o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol.
- Y dull gofodol ar gyfer datblygu CMCC (ar y gweill), yn amlinellu ffrydiau gwahanol y gwaith sy'n mynd rhagddo, gan gynnwys datblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol.
- Adroddiad(au) tarddiad Ardaloedd Adnoddau Strategol, fel sy'n briodol (ar y gweill, i'w datblygu fel rhan o fapio Ardaloedd Adnoddau Strategol).

1 I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at y papur ar y dull arfaethedig o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol i ategu'r gwaith o weithredu polisi diogelu CMCC (Gorffennaf 2021).

2 I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at y papur ar y dull arfaethedig o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol i ategu'r gwaith o weithredu polisi diogelu CMCC (Gorffennaf 2021), a'r papur sydd ar y gweill ar y dull gofodol ar gyfer gweithredu CMCC.

3 I gael rhagor o fanylion, cyfeiriwch at y papur ar y dull arfaethedig o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol i ategu'r gwaith o weithredu polisi diogelu CMCC (Gorffennaf 2021)

4 Ymdrinnir â thechnolegau ynni gwynt sefydlog gan y Prosiect Ymchwil i Senarios ar gyfer Ynni Gwynt ar y Môr, a arweinir gan BEIS; bydd allbynnau o'r gwaith hwn yn cael eu hystyried a'u gweithredu fel sy'n briodol.

5 A elwir yn flaenorol yn feini prawf dylunio.

6 Mae'r dogfennau hyn ar gael yn **www.llyw.cymru/cynllunio-morol**

## Diffiniadau:

Mae deall y cyfyngiadau posibl a all ddylanwadu ar hyfywedd datblygiad neu gyflwyno cymhlethdod mewn perthynas â chydsyniad yn gallu helpu i lywio'r broses o nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol. Bydd mapio cyfyngiadau yn elfen bwysig wrth nodi, ar lefel cynllun strategol, ardaloedd adnoddau naturiol y mae'n bosibl bod angen eu diogelu drwy Ardaloedd Adnoddau Strategol. Wrth ddatblygu Ardaloedd posibl, byddwn felly'n gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi ac ystyried cyfyngiadau caled a meddal perthnasol, gan ddefnyddio'r diffiniadau canlynol:

**Cyfyngiad caled** – ystyriaeth ofodol sy'n golygu, am oes y cyfyngiad hwnnw, nad yw datblygiadau newydd yn bosibl yn ymarferol, ar gyfer sector penodol.

*Er enghraifft, byddai seilwaith sefydlog sylweddol yn cael ei ystyried yn gyfyngiad caled mewn perthynas â gweithgareddau cloddio agregau newydd.*

**Cyfyngiad meddal** – ystyriaeth ofodol sy'n ymwneud â sector penodol. Gall cyfyngiadau meddal fod yn berthnasol i ragolygon a natur datblygiad newydd i raddau amrywiol.

*Er enghraifft, byddai Ardal Forol Warchodedig yn ystyriaeth bwysig ar gyfer datblygiad ynni adnewyddadwy newydd ond ni fyddai o reidrwydd yn golygu na all ddatblygiadau newydd fynd rhagddynt.*

Rhoddir yr un ystyriaeth i gyfyngiadau meddal a chaled wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chynllunio a thrwyddedu.

Lle mae Ardaloedd Adnoddau Strategol yn cael eu cyflwyno, byddwn yn parhau i adolygu materion perthnasol, gan gynnwys dealltwriaeth o unrhyw newidiadau i gyfyngiadau gofodol perthnasol a goblygiadau posibl i ffin yr Ardaloedd.

## Egwyddorion Dylunio ar gyfer Ardaloedd Adnoddau Strategol:

Yn ôl CMCC (paragraff 55) '*Wrth bennu Ardaloedd Adnoddau Strategol, dylai awdurdod y cynllun morol*:

- Ddefnyddio meini prawf technegol i ddangos yr adnodd a fydd y mwyaf tebygol o fod yn ymarferol ac yn economaidd hyfyw o ystyried y technolegau sydd ar gael heddiw;
- Defnyddio anghenion gofodol sectorau eraill i fireinio ffiniau'r Ardaloedd Adnoddau Strategol, gyda'r nod o leihau neu osgoi gwrthdaro, a hybu cydfodoli;
- Nodi'r ardaloedd lle gallai fod angen ystyried opsiynau eraill ar gyfer defnyddio'r adnoddau;
- Nodi'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd amgylcheddol sy'n berthnasol i'r Ardaloedd Adnoddau Strategol;
- Nodi'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd cymdeithasol sy'n berthnasol i'r Ardaloedd Adnoddau Strategol;
- Ystyried y berthynas rhwng yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ac amcanion a pholisïau cyffredinol a sectorol perthnasol y Cynllun hwn.'

Wrth weithio gyda rhanddeiliaid i fapio a datblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl i fod yn destun ymgynghori, byddwn yn:

- Cael ein harwain gan amcanion a pholisïau perthnasol CMCC.
- Defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael drwy gydol y broses.
- Defnyddio meini prawf technegol sy'n ymwneud ag ystyriaethau ymarferol ac economaidd sy'n benodol i sector er mwyn deall hyfywedd technegol posibl defnyddio adnoddau.
- Nodi ac eithrio ardaloedd lle mae cyfyngiadau 'caled' sy'n benodol i sector (er enghraifft, mewn perthynas ag SAF_01a).
- Ystyried cyfyngiadau 'meddal' a diwygio Ardaloedd Adnoddau Strategol posibl fel sy'n briodol (er enghraifft, ystyried gweithgaredd sy'n bodoli eisoes (SAF_01b); ystyriaethau amgylcheddol (polisïau ENV_01, 02, 07); ystyriaethau cymdeithasol/diwylliannol (polisïau SOC_05, 06, 07)).

- Ceisio lleihau'r gwrthdaro rhwng cyfleoedd ar gyfer gwahanol sectorau.
- Ceisio hyrwyddo cydfodoli[7] a manteisio i'r eithaf ar gynllunio gofodol er mwyn diogelu adnoddau.
- Ymgorffori ystyriaethau 'digonolrwydd maint' mewn perthynas â maint gweithrediadau sector a'r gyfradd twf bosibl[8] ac ati.
- Osgoi Ardaloedd Adnoddau Strategol sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd lle nad yw cydfodoli rhwng gweithgareddau yn bosibl.
- Sicrhau eglurder o ran diogelu drwy osgoi ffiniau anghymesur o gymhleth ac ardaloedd digyswllt neu ddarniog, lle y bo modd, yn yr Ardaloedd Adnoddau Strategol arfaethedig terfynol.

Rydym yn bwriadu canolbwyntio'r broses ar ardal y Cynllun yn nyfroedd y glannau lle, fel arfer, mae rhagor o weithgareddau ac adnoddau sy'n gorgyffwrdd ac yn cysylltu â'i gilydd. Byddwn yn ystyried adnoddau a gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ardal y Cynllun ar y môr mawr fel sy'n briodol drwy gydol y broses.

7 Diffiniad CMCC o gydfodoli yw pan all datblygiadau, gweithgareddau neu ddefnyddiau lluosog fodoli ochr yn ochr â'i gilydd neu'n agos at ei gilydd yn yr un lle a/neu ar yr un pryd. Mae cydleoli yn is-set i gydfodoli a dyma lle mae datblygiadau, gweithgareddau neu ddefnyddiau lluosog yn cydfodoli yn yr un lle drwy rannu'r un ôl troed neu ardal. (CMCC paragraff 98).

8 Ymgorffori'r broses o ystyried ffactorau megis, er enghraifft, aeddfedrwydd y sector ac agosrwydd at y farchnad, galw/marchnadoedd posibl, polisi'r llywodraeth, cefnogi seilwaith a chadwyni cyflenwi.